Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus:

Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru

Rhagymadrodd

Mae'r ddogfen hon yn nodi ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Gam 2 o Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus fel y'i nodwyd yn y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Medi 2008. Gan ei fod wedi'i fwriadu i adlewyrchu anghenion gwylwyr yng Nghymru, mae'r ymateb hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar yr agweddau hynny o ymgynghoriad Ofcom sy'n ymdrin â gwasanaethau teledu yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei gwneud yn glir cyn hyn ei bod yn rhoi pwys mawr ar ddatblygu darlledu gwasanaeth cyhoeddus (DGC) sy'n diwallu anghenion gwylwyr yng Nghymru. Yn hanesyddol, mae'r cyhoedd yng Nghymru yn cael llawer llai o'i ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes gan gyfryngau print seiliedig yng Nghymru na'r hyn a geir yn yr Alban (16% o'i gymharu â 70%). Mae'r ddau brif rwydwaith teledu wedi gwneud llawer i hyrwyddo a chryfhau bywyd diwylliannol Cymru. Mewn byd sydd â llu o sianeli, rydym yn credu ei bod yn bwysicach fyth fod teledu gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i chwarae'r rôl hon. Mae adolygiad Ofcom yn rhoi cyfle tyngedfennol i benderfynu sut y gellir cyflawni hyn orau yng ngwledydd y DU yn ogystal ag ar lefel y DU gyfan.

Mae angen i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ddarparu gwybodaeth yn ogystal ag adloniant. Yn hanesyddol, mae'r cyfryngau print wedi bod yn gymharol wan yng Nghymru. Mae hynny'n dal yn wir heddiw. Mae newyddion teledu, felly, yn cario baich anghymesur fel ffordd o roi gwybodaeth i ddinasyddion Cymru am y system lywodraethu sy'n gyfrifol am y mwyafrif helaeth o'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi ei gwneud yn glir ein bod yn gweld ffynonellau lluosog ym maes newyddion teledu yn elfen hanfodol o'r fframwaith DGC yng Nghymru yn ogystal ag yng ngweddill y DU.

Y Grŵp Cynghori ar Ddarlledu

Mewn cydnabyddiaeth o'r rôl allweddol a chwaraeir gan DGC yng Nghymru, sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru grŵp cynghori arbenigol i ystyried cynigion Ofcom yn fanylach ac i gyfrannu at ein hymateb i'r cynigion hynny. Cyhoeddir adroddiad y Grŵp Cynghori yn llawn ochr yn ochr â'r ymateb hwn. Adlewyrchir casgliadau'r Grŵp ym mhob un o brif elfennau'r ymateb hwn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn croesawu adroddiad y Grŵp Cynghori ac yn ei gefnogi'n frwd. Credwn fod ei gasgliadau yn darparu sail resymegol rymus o blaid cynnal a chryfhau DGC cyfrwng Saesneg yng Nghymru. Mae'r ymateb hwn yn adlewyrchu casgliadau'r Grŵp. Mae gwaith y Grŵp hefyd yn darparu sylfaen gadarn i seilio polisi arni yn y maes hwn wrth inni symud ymlaen. Tynnodd y Grŵp Cynghori sylw at y rôl hanfodol a chwaraeir gan DGC cyfrwng Saesneg yng Nghymru. Mae adroddiad y Grŵp hefyd yn tynnu

sylw at y cyfuniad o ffactorau sy'n amlygu'r angen i weithredu ar frys mewn perthynas â'r fframwaith rheoleiddio sy'n llywodraethu DGC yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU.

DGC Cyfrwng Saesneg yng Nghymru

i. Cymorth Ariannol i DGC

Mae'r Grŵp Cynghori yn cadarnhau'r casgliadau a oedd yn dod i'r amlwg gan Ofcom y bydd angen cymorth ariannol ychwanegol i gynnal newyddion a materion cyfoes yn rhan o wasanaeth ITV yng Nghymru. Mae adroddiad y Grŵp Cynghori hefyd yn tanlinellu mor bwysig yw sicrhau bod gwasanaethau newyddion rhanbarthol yn cyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl. Mae cynigion y Grŵp yn canolbwyntio yn y lle cyntaf, felly, ar gynnal newyddion a materion cyfoes rhanbarthol ar ITV1. Mae casgliadau'r Grŵp yn awgrymu mecanwaith i sianelu unrhyw gyllid o'r fath a allai gael ei ddefnyddio hefyd i gynnal ystod ehangach o raglenni gwasanaeth cyhoeddus. Gallai hyn gynnwys datblygu gwasanaethau ar-lein.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn credu y dylai'r her o gynnal ffynonellau lluosog ym maes newyddion a materion cyfoes yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU fod yn amcan canolog i bolisi darlledu yn y DU. I'r graddau y mae hyn yn achosi canlyniadau ariannol, mae angen rhoi sylw i'r rhain ochr yn ochr ag unrhyw amcanion gwasanaeth cyhoeddus eraill y mae iddynt oblygiadau ariannol sy'n deillio o adolygiad Ofcom.

Yn unol ag argymhellion y Grŵp Cynghori, ac o ystyried yr angen i sicrhau bod casglu newyddion a chyhoeddiadau seiliedig yng Nghymru yn cyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl, cred Llywodraeth Cynulliad Cymru mai'r briod flaenoriaeth i Ofcom a Llywodraeth y DU ar hyn o bryd fyddai darparu cymhelliad ariannol i sicrhau bod newyddion a materion cyfoes yn parhau i gael eu darparu ar ITV1. Rydym felly yn cefnogi opsiwn Ofcom a fyddai'n gweld y fframwaith DGC presennol yn esblygu. Cyn belled â bod Ofcom yn fodlon fod hynny'n darparu gwerth am arian, byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi unrhyw gynigion i ddarparu cymhellion ariannol i ITV i gynnal slotiau ar gyfer darpariaeth newyddion a materion cyfoes yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae'r Grŵp yn awgrymu y gallai rhaglenni newyddion a materion cyfoes gael eu cynhyrchu gan drydydd parti a'u sianelu drwy gorff cyllido sy'n gweithredu yng Nghymru. Rydym yn cefnogi cynnig y Grŵp Cynghori y dylai'r cyllid ar gyfer hyn gael ei ddarparu fel rhan o setliad DGC y DU. Byddai'r corff cyllido yn gallu adolygu'r trefniadau hyn yn gyson. Pe bai sefyllfa'n datblygu lle na fyddai mwyach yn bosibl neu'n ddymunol cyllido darpariaeth newyddion a materion cyfoes ar ITV1 neu ei olynydd, gallai'r corff cyllido sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu drwy ddull gwahanol. Mae'r Grŵp yn tynnu sylw at y posibilrwydd o wneud hyn ar sianel ar wahân, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno â barn y grŵp ac yn annog Ofcom i sicrhau bod capasiti digidol ar gael. *

ii. Ystod y ddarpariaeth DGC

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cytuno â barn y Grŵp Cynghori fod angen edrych y tu hwnt i newyddion a materion cyfoes yn unig wrth ystyried DGC yng Nghymru i'r dyfodol. Yn gyffredinol, dylai DGC cyfrwng Saesneg ddarparu amrywiaeth o raglenni i wylwyr yng Nghymru sy'n cael eu targedu'n benodol at eu diddordebau neilltuol. Er mwyn i DGC wireddu'r amrywiaeth manteision i ddinasyddion y tynnir sylw atynt yn adroddiad y Grŵp Cynghori, mae angen iddo allu cynnig adloniant a gwybodaeth ar draws amrywiaeth eang o raglenni, yn cynnwys drama, comedi a rhaglenni eraill sy'n adlewyrchu agweddau arbennig o ddiwylliant Cymru. Rydym hefyd yn cefnogi barn y Grŵp y dylai ffynonellau lluosog fod yn nodwedd allweddol o'r rhaglenni hyn nad ydynt yn rhaglenni newyddion. Mae ffynonellau lluosog yn elfen bwysig er sicrhau safonau uchel yn sgil cystadleuaeth rhwng comisiynwyr a chynhyrchwyr cynnwys. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cefnogi'r argymhelliad fod angen mecanwaith i sicrhau'r ystod hon o raglenni yn eu cyfanrwydd ac i sicrhau bod yr ehangder hwn yn cael ei gynnal.

iii. Rôl Cynhyrchwyr Annibynnol

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn credu hefyd ei bod yn hollbwysig sicrhau bod datblygiad DGC yng Nghymru yn cynnwys cynhyrchwyr annibynnol yn ogystal â'r prif rwydweithiau. Mae'r gostyngiad yn y rhaglenni a gomisiynwyd dros y blynyddoedd diwethaf wedi cael effaith sylweddol ar y sector annibynnol yng Nghymru. Yn unol ag argymhellion y Grŵp, dylid achub ar bob cyfle i roi cymaint o rôl â phosibl i gynhyrchwyr annibynnol wrth gryfhau DGC yng Nghymru. Dylai cymorth ariannol i DGC cyfrwng Saesneg gynnwys y sector annibynnol yn ogystal â'r prif rwydweithiau.

iv. Gwasanaethau Ar-lein

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hun wedi darparu cymorth ariannol i sicrhau bod y cyfryngau print cyfrwng Cymraeg yn cael eu cryfhau. Dylai'r cynigion a nodwyd uchod fod yn ddigon hyblyg fel bod modd datblygu gwasanaethau newyddion ar-lein ochr yn ochr â'r rhai a ddarperir ar gyfer gwasanaethau teledu llinol. Yn unol ag argymhellion y Grŵp Cynghori, nid ydym yn credu y byddai'n briodol eto yng Nghymru darparu gwasanaethau newyddion drwy lwyfannau digidol newydd yn unig. Mae angen parhau i ddarparu gwasanaethau sy'n adlewyrchu darparwyr newyddion lluosog ar deledu llinol ar gyfer gwylwyr Cymru yn y dyfodol agos.

S4C

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn glir fod angen i ddatblygu gwasanaethau teledu cyfrwng Saesneg gael ei weld fel rhywbeth ychwanegol at barhau i ddarparu cymorth cyhoeddus i S4C yn hytrach na rhywbeth yn ei le. S4C yw'r unig wasanaeth teledu a ddarperir ar gyfer siaradwyr Cymraeg o hyd. Mae hyn yn cymharu â'r £3 biliwn a mwy o gynnwys cyfrwng Saesneg a gynhyrchir yn y DU yn unig yn flynyddol. Wrth i S4C nesau at her y newid i

deledu digidol, mae angen cynnal a chryfhau'r fframwaith cymorth ariannol i S4C ochr yn ochr â'r angen i gryfhau'r gwasanaethau Saesneg sy'n cael eu darparu i wylwyr yng Nghymru.

Gwasanaethau'r BBC

Man cychwyn ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gryfhau rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus cyfrwng Saesneg yw'r angen sy'n parhau i'r BBC yng Nghymru allu darparu gwasanaeth eang ei gwmpas, wedi'i anelu at wylwyr yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud ei chefnogaeth i BBC cryf, yn cael ei gyllido gan ffi'r drwydded ac yn adlewyrchu buddiannau dinasyddion Cymru, yn glir o'r blaen. Rydym yn dal i gredu mai ffi'r drwydded yw'r ffordd orau o sicrhau parhad yr ystod bwysig o wasanaethau y mae'r BBC yn eu darparu yng Nghymru. Os yw unrhyw ffynhonnell newydd o gyllid, a dargedir i gefnogi rhaglenni teledu cyfrwng Saesneg, i gael unrhyw effaith, mae'n hanfodol fod hyn yn ychwanegol at yn hytrach nag yn lle'r ystod gyfredol o raglenni a dargedir at wylwyr Cymraeg gan y BBC yng Nghymru.

Rydym yn cefnogi barn y grŵp y dylai ymrwymiad y BBC i ddarparu 17% o'r rhaglenni rhwydwaith erbyn 2016 gael ei symud ymlaen i 2012. Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad gan y BBC yn ddiweddar y bydd cynhyrchu *Crimewatch* ac o bosibl *Casualty* yn symud i Gaerdydd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r BBC i roi'r ymrwymiad hwnnw ar waith er budd cwmnïau o Gymru, yn cynnwys helpu i sicrhau y gall darpariaeth seilwaith a sgiliau arbenigol Cymru ymdopi â symud Casualty a chynyrchiadau eraill i Gymru. Rydym hefyd yn croesawu'r cyhoeddiad fod y BBC yn ystyried sefydlu "pentref drama" yng Nghymru. Byddai canolfan gynhyrchu fawr fel hyn yn help i ddatblygu màs critigol cynaliadwy yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn darparu cymorth technegol i'r prosiect hwn a bydd yn parhau i wneud hynny.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi ei gwneud yn glir mor bwysig yn ei barn hi yw rhoi sylw priodol i Gymru ar y prif rwydweithiau teledu a bydd yn disgwyl i Ymddiriedolaeth y BBC a Chyngor Cynulleidfa Cymru gyhoeddi eu hasesiad o effeithiolrwydd ymateb y BBC i adroddiad King ar ddarlledu maes o law. Bydd y Gweinidogion yn trafod yr asesiad hwn gydag Ymddiriedolaeth y BBC a Chyngor Cynulleidfa Cymru. Mae argymhellion adroddiad King yn berthnasol hefyd i newyddion ITV a newyddion Channel 4 ac mae'n amlwg nad yw'r sianeli hyn wedi gweithredu'r rhain eto. Anogwn Ofcom i adlewyrchu hyn yn ei ddadansoddiad o DGC.

Channel 4

Mae'r un mor bwysig fod Channel 4 hefyd yn chwarae ei rhan yn portreadu Cymru i gynulleidfa'r DU, ochr yn ochr â rhwydweithiau'r BBC. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bryderus i weld nad oedd cynigion Ofcom ond yn ei gwneud yn ofynnol i Channel 4 gynhyrchu 3% o'i gomisiynau rhwydwaith yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Os yw Channel 4 i dderbyn arian cyhoeddus, hoffem ailadrodd ein barn y dylai fod yn ofynnol iddi gynhyrchu cyfran o'i chomisiynau rhwydwaith sy'n cyfateb i'r boblogaeth o leiaf yn y

gwledydd a'r rhanbarthau. Rydym yn credu bod hyn yn cyd-fynd yn llwyr â rôl Channel 4 yn datblygu doniau newydd ledled y DU. I ymgyrraedd at yr amcanion ehangach hyn, byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn falch o ymuno mewn trafodaethau â Channel 4 ynglŷn â sut y gallai sefydlu presenoldeb yng Nghymru am y tro cyntaf. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn credu y byddai manteision economaidd pwysig i Channel 4 eu hennill drwy gynyddu'r gyfran o'r comisiynau rhwydwaith sy'n deillio o'r tu allan i'r M25 ac mewn ardaloedd fel Cymru lle mae'r costau atodol sy'n rhan o gynyrchiadau teledu yn tueddu i fod lawer yn is nag yn Llundain.